



Teitl y Swydd: **Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Cyflog: Rhoddir cydnabyddiaeth ariannol o £99 am gyfarfodydd sy'n para llai na 3.5 awr a £198 am gyfarfodydd sy'n para dros 3.5 awr.

Lleoliad: Ardal Caerdydd

Diben y Swydd:

Prif rôl yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a sicrhau, ym mhob ffordd berthnasol, bod cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer ei ddibenion perthnasol, ac yn unol â gofynion polisïau Llywodraeth Cymru.

Cefndir

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gorff Annibynnol a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac fe'i hailenwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Roedd Deddf 2013 yn disodli Deddf Llywodraeth Leol 1972. Pwrpas y Comisiwn yw adolygu'r canlynol yn barhaus yng Nghymru:

- Ardaloedd Llywodraeth Leol
- Trefniadau Etholiadol ar gyfer prif ardaloedd

Mae hefyd yn:

- Ystyried argymhellion prif gynghorau ar gyfer ardaloedd cymunedol
- Cynnal arolygon yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru

Mae'r Comisiwn yn gwneud hyn fel mater o drefn, neu mewn ymateb i gais gan awdurdodau lleol, neu yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru sydd, ym marn y Comisiwn, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, a chaiff Llywodraeth Cymru weithredu'r argymhellion a wneir gan y Comisiwn neu beidio.

Cyllideb y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 yw £891,000.

Manyleb yr Unigolyn

Dylai pob ymgeisydd feddu ar y canlynol:

- Profiad uniongyrchol o waith Pwyllgor Archwilio;
- Dangos sgiliau dadansoddi cryf a'r gallu i werthuso gwybodaeth, a dod i gasgliad rhesymegol;
- Profiad perthnasol ym maes cyllid – byddai cymhwyster cyfrifyddiaeth yn ddymunol;
- Y gallu i arfer safbwynt annibynnol, cytbwys a dangos niwtraliaeth wleidyddol;
- Dealltwriaeth eglur o faterion cydraddoldeb a herio arferion gwahaniaethol, ac ymrwymiad iddynt; a,
- Dealltwriaeth eglur o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan, ac ymrwymiad iddynt.

Fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, disgwylir i chi ddatgan yn rhagweithiol unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o fusnes sy'n gysylltiedig ag agenda'r Pwyllgor neu newidiadau i'ch amgylchiadau personol.

Disgrifiad o'r Rôl

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod ganddo drefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd i Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn ynglŷn â digonolrwydd y trefniadau o fewn y Comisiwn ar gyfer llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys archwilio mewnl ac allanol, rheolaeth ariannol a rhagolygon ariannol, a materion llywodraethu corfforaethol ehangach.

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ymgymryd â'r dasg hon, ac mae'n dymuno penodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor hwnnw i oruchwylio'r dasg bwysig hon.

Nod y Pwyllgor yw cynghori'r Comisiwn ar gyflawni ei gyfrifoldeb i lywodraethu'n drylwyr ac yn effeithiol, ac i gyflawni ei gyfrifoldebau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd yn ofynnol i Aelod Annibynnol y Pwyllgor wneud y canlynol, yn arbennig:

- Ynghyd ag aelodau eraill, adolygu pob agwedd ar reolaeth ariannol a chyllidebol y Comisiwn;
- monitro ac adolygu'r systemau sydd ar waith i gyflawni cyfrifoldebau rheoli risg, rheoli mewnl ac allanol llywodraethu ehangach yn effeithiol; ac,
- adolygu'r trefniadau sydd ar waith i hybu darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol.

Bydd archwilywyr mewnol ac allanol y Comisiwn yn eich cynorthwyo i adolygu'r meysydd hyn.

Prif rôl yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a sicrhau, ym mhob ffordd berthnasol, bod cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer ei ddibenion perthnasol, ac yn unol â gofynion polisïau Llywodraeth Cymru.

Fe'ch penodir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gan Gadeirydd y Pwyllgor, y byddwch yn atebol iddo.

Ymrwymiad Amser

Yn nodweddiadol, yn rhan o'ch dyletswyddau fel Aelod Annibynnol, disgwylir i chi fynychu tri chyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys yr amser sy'n angenrheidiol i chi ymgyswrtio â'r sefydliad, darllen papurau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd. Mae'n bosibl y bydd angen i chi fynychu cyfarfodydd ychwanegol a rhoi cyngor ychwanegol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Sut i Wneud Cais

Dylid ymgeisio trwy gyflwyno datganiad personol nad yw'n fwy na 500 o eiriau. Mae croeso i chi gynnwys eich CV. Dylech ddarparu tystiolaeth o'r ffordd y mae eich profiad yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb yr unigolyn trwy gyfeirio at enghreifftiau o'ch gyrfa broffesiynol neu eich profiadau bywyd.

Y Broses Ddethol

Bydd y broses ddethol wedi'i seilio ar CV a datganiadau personol ymgeiswyr, a fernir yn erbyn y disgrifiad o'r rôl a manyleb yr unigolyn uchod.

Disgwylir i gyfweiliadau gael eu cynnal yn hwyr ym mis Mehefin 2019.

Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn gymwys a bydd penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod.

Dyddiad Dechrau

1 Medi 2019

Gwybodaeth Ychwanegol ac Ymholiadau

I gael mwy o wybodaeth am Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gallech ddymuno ymweld â gwefan y Comisiwn: www.ldbc.gov.wales neu gysylltu â'r Prif Weithredwr, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd, CF24 0BL.